LEG-10-2000 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 4 Ebrill 2000
**Amser:** 10.30am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora

1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Michael German, Cadeirydd | (Democratiaid Rhyddfrydol) |
| Nick Bourne | (Ceidwadwyr) |
| Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| John Marek | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Dylan Hughes | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:**
Jocelyn Davies, Huw Lewis

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd drwy groesawu swyddogion Cynulliad Gogledd Iwerddon, a oedd yn eistedd yn yr oriel gyhoeddus. Fe'u cyfarchodd a mynegodd ddymuniadau gorau'r Pwyllgor a'r Cynulliad i Gynulliad Gogledd Iwerddon.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi: LG-9-2000(min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2000.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor bod pwynt gweithredu'n codi o baragraff 1.2 o'r cofnodion. Gofynnodd i Mr Turnbull a oedd bellach mewn sefyllfa i gynghori'r Pwyllgor a oedd Erthygl 5 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Gostyngiadau) a (Darpariaethau Trosiannol Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2000 yn darparu y byddai'r rhai hynny yr effeithir arnynt yn cael eu hysbysu'n ffurfiol o'u hawl i apelio.

1.3 Eglurodd Mr Turnbull nad oedd yn fodlon iawn â'r esboniadau a roddwyd gan y cyfreithiwr

drafftio cyn belled. Serch hynny, gan mai ymholiad a godwyd gan Jocelyn Davies a oedd yn absennol o'r cyfarfod oedd hwn, tybiai a fyddai'n well pwyso ar ddrafftwyr yr offeryn am ymateb mwy ystyrlon y gallai ei gyfleu i'r Pwyllgor yr wythnos nesaf. Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig hwn.
**GWEITHREDU: Mr Turnbull**

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod, yn sgil cyfarfod yr wythnos diwethaf, wedi ysgrifennu at Peter Law ar 3 Ebrill yn unol â Rheol Sefydlog 11.4 gan ddweud bod bwriad gan y Pwyllgor i wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2000 (LC 72) ar sail drafftio diffygiol. Dosbarthwyd copi o'r llythyr hwnnw i bob aelod.

2.2 Nodwyd gan y Cadeirydd bod y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth, yr wythnos diwethaf, i gynnig y Pwyllgor Busnes i ddiwygio Rheol Sefydlog 22 a fyddai'n darparu ar gyfer cywiriadau i'r gorchmynion drafft pan fyddent wedi'u gosod. Serch hynny, teimlwyd nad oedd y diwygiad arfaethedig yn ddigonol am mai cyfeirio at wallau teipio neu ramadeg y gwnâi. Am fod y diwygiad arfaethedig i'r Rheol Sefydlog i'w ystyried mewn cyfarfod llawn yr wythnos ganlynol, cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno newid er mwyn cywiro camgymeriadau drafftio eraill a nodwyd gan y Pwyllgor yn eu hadroddiadau. Fel mae'n digwydd, ni chyflwynwyd y rhan honno o ddiwygiadau i'r Rheol Sefydlog i'w hystyried mewn cyfarfod llawn. Cyfarfu'r swyddogion (gan gynnwys y cynghorwyr cyfreithiol) yn sgil hynny mewn ymgais i ddatrys y mater.

2.3 Eglurodd y Cynghorwyr Cyfreithiol y daethpwyd i gytundeb yn y cyfarfod hwnnw i drafod y newid a fyddai'n caniatáu cywiro camgymeriadau drafftio a nodwyd gan y Pwyllgor. Byddai manylion y cynnig hwn yn cael eu rhoi gerbron y Pwyllgor i'w hystyried maes o law.

2.4 Wrth drafod, pwysleisiodd y Pwyllgor nad oeddent am gyfrannu at unrhyw oedi wrth basio deddfwriaeth ac nad oeddent yn dymuno caniatáu i Reol Sefydlog 22 fod yn fwy afrosgo. Serch hynny, teimlid ei bod yn hanfodol ymgynghori â hwy ar unrhyw gynigion perthnasol i newid Rheol Sefydlog 22 yn y dyfodol ac na ddylai unrhyw newidiadau gael effaith andwyol ar allu'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried gan y Pwyllgor**
**LC 69 Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad gerbron y Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r rheoliadau drafft ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Ni wnaeth y Pwyllgor unrhyw sylwadau cyffredinol y teimlid y dylid eu cofnodi yn yr Adroddiad.

3.3 Amgaeir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau hyn fel LC 69 (Adroddiad).

**LC 70 Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau ar gyfer Adfer y Stoc Penfreision) (Môr Iwerddon) (Cymru) 2000**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad gerbron y Pwyllgor. Yr oedd y Gorchymyn eisoes wedi'i wneud o dan y weithdrefn Frys.

3.5 Daethpwyd i'r casgliad bod sail ar gyfer rhoi adroddiad am y Gorchymyn hwn o dan Reol Sefydlog 11.5. Felly cytunodd y Pwyllgor i droi at y weithdrefn a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.4. Mae hyn yn golygu y dylai'r Cadeirydd, cyn dweud wrth y Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn gyntaf o fwriadau'r Pwyllgor a rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb i'r pwyntiau a godwyd ar lafar neu'n ysgrifenedig.

3.6 Nodwyd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol petai'r Nodyn Esboniadol yn diffinio maint y daliad fel na fyddai angen i bobl edrych yn rhywle arall am y wybodaeth honno. Byddai'r Pwyllgor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen yn sgil ymateb Christine Gwyther.
**Gweithredu: Clerc / Cadeirydd**

**LC 74 Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2000**
3.6 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad gerbron y Pwyllgor.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r gorchymyn drafft ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5, er ei fod wedi nodi ambell sylw cyffredinol y dylid tynnu sylw ato. Cofnodwyd y rhain yn yr Adroddiad.

3.8 Amgaeir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn hwn fel LC 74 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**
4.1 Nodwyd gan y Cadeirydd ei fod wedi cael llythyr oddi wrth Gynullydd Pwyllgor Is-ddeddfau Senedd yr Alban yn diolch i'r Pwyllgor ac eraill am y croeso cynnes a gafwyd yn ystod eu hymweliad â'r Cynulliad yn ddiweddar. Yn ei lythyr, estynnodd y Cynullydd wahoddiad i'r Pwyllgor ymweld â hwy yng Nghaeredin. Petai'r Pwyllgor yn barod i dderbyn y gwahoddiad, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau ynghylch y gost a'r trefniadau ar gyfer ymweliad o'r fath, a'r posibilrwydd o deithio i Gaeredin ar ddydd Mawrth, sef y diwrnod y mae eu Pwyllgor hwy yn cyfarfod. Byddai angen caniatâd y Llywydd. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n fodlon ag ymweliad o'r fath.

4.2 Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Ebrill 2000. Disgwylid 4 neu 5 o ddeddfau i'w hystyried.

**Papurau Cysylltiedig**

- **LC 69 (Adroddiad)**
- **llythyr at Christine Gwyther**
- **LC 74 (Adroddiad)**